
Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer

Yr wybodaeth ddiweddaraf am waelodlin faint o
gynnwys sydd ar gael

DATGANIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2019

Gwaelodlin faint o gynnwys sydd ar BBC iPlayer

- 1.1 Diben y ddogfen hon yw nodi gwaelodlin y cynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer ar hyn o bryd, sydd wedi cael ei diweddarau drwy ychwanegu niferoedd yr oriau o gynnwys erbyn hyn. Mae pennu'r gwaelodlin yn rhoi mwy o dryloywder i randdeiliaid ac i Ofcom; mae'n rhoi gwybodaeth i ni ynghylch graddfa'r BBC iPlayer ac yn ein galluogi i olrhain unrhyw newidiadau a gaiff eu gwneud iddo yn y dyfodol.
- 1.2 Yn ein Hasesiad Cystadleuaeth o gynigion i BBC i ymestyn y cynnwys sydd ar gael ar BBC iPlayer (Penderfyniad Terfynol y BCA), fe wnaethom benderfynu y gallai'r BBC fwrw ymlaen i roi ei gynigion ar waith, yn amodol ar amodau a chanllawiau.¹ Roedd yr amodau, ymysg rhwymedigaethau eraill, yn cynnwys gofyn i'r BBC gadw data am y cynnwys a fydd ar gael ar BBC iPlayer ac ystyried pa fesurau perfformiad ar gyfer BBC iPlayer fydd yn cael eu cynnwys ym mhob un o Adroddiadau Blynyddol y BBC.²
- 1.3 Ym Mhenderfyniad Terfynol y BCA roeddem wedi cynnwys tabl, a roddwyd i ni gan y BBC, yn rhestru'r categorïau cynnwys gwahanol ar BBC iPlayer (ynghyd â gwybodaeth am eu diffiniadau a'u hargaeledd).³ Nid oedd y tabl hwn yn darparu gwybodaeth am faint o gynnwys sydd ar gael. O dan Amod 1, roeddem felly wedi gofyn i'r BBC nodi nifer yr oriau o gynnwys sydd ar gael ym mhob categori ar hyn o bryd ar BBC iPlayer.
- 1.4 Yn unol â hynny, mae'r BBC nawr wedi rhoi gwybod i ni faint o gynnwys oedd ar gael ym mhob categori yn Nhabl A3.1 Penderfyniad Terfynol y BCA ar 29 Mai 2019.⁴ Rydym wedi nodi'r niferoedd hyn yn Nhabl 1.1 isod.
- 1.5 Efallai byddwn yn gofyn i'r BBC am yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch faint o gynnwys sydd ar BBC iPlayer. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall unrhyw newidiadau i faint o gynnwys sydd ar BBC iPlayer, gan gynnwys mewn categorïau nad oeddent yn rhan o gynigion y BBC y craffwyd arnynt ym Mhenderfyniad Terfynol y BCA, fel rhaglenni BBC Three.

¹ Ofcom, 2019. [Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad Terfynol](#)

² Ofcom, 2019. [Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad Terfynol](#), Atodiad 2

³ Ofcom, 2019. [Asesiad Cystadleuaeth BBC iPlayer: Penderfyniad Terfynol](#), Atodiad 3, Tabl A3.1.

⁴ Mae'r BBC wedi dweud wrthym ni ei fod wedi dewis y dyddiad hwn ar hap pan ddechreuodd asesu popeth a oedd ar gael ar BBC iPlayer.